# Safonau’r Iaith Gymraeg
# Adroddiad blynyddol 2022/23

*This document is also available in English.*

## 1. Cyflwyniad

Mae Safonau’r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Gorffennaf bob blwyddyn.

Mae adroddiad blynyddol 2022/23 yn ymdrin â’r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ac mae’n amlinellu sut mae’r cyngor yn parhau i gydymffurfio yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw ddatblygiadau/meysydd cynnydd newydd.

## 2. Sut mae’r cyngor yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg

Nid yw’r cyngor yn cael ei herio mwyach ar gyfer unrhyw safonau a gellir gweld unrhyw newidiadau i ddyddiadau cydymffurfio, estyniadau neu amgylchiadau’r safonau a heriwyd yn flaenorol yn hysbysiad cydymffurfio diwygiedig y cyngor.

### 2.1 Cydymffurfio cyffredinol

- Mae gan y cyngor swyddog arweiniol sy’n delio â’r Gymraeg o hyd
- Mae cyflogeion yn parhau i dderbyn diweddariadau a gwybodaeth rheolaidd am y Gymraeg o ran cydymffurfiaeth, mynediad at adnoddau fel hyfforddiant a chodi proffil yr iaith a’r diwylliant
- Mae gan ein modiwl e-ddysgu cynefino corfforaethol adran benodol sy’n ymwneud â’r Gymraeg a’i phwysigrwydd, sy’n cyfeirio gweithwyr newydd at adnoddau gwybodaeth eraill

- Mae gan ein modiwl e-ddysgu cynefino i reolwyr adran benodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'i phwysigrwydd, sy'n cyfeirio rheolwyr newydd at adnoddau gwybodaeth eraill
- Fel rhan o'r rhaglen gynefino i reolwyr, mae'r swyddog sy'n gyfrifol am y Gymraeg yn rhoi cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol i reolwyr gan sicrhau eu bod yn deall rhwymedigaethau'r cyngor a'u cyfrifoldebau rheoli.
- Mae'r Gymraeg yn parhau ar gofrestr risg y cyngor er mwyn helpu i fonitro cydymffurfiaeth
- Mae gweithwyr yn parhau i allu cael mynediad at Hyrwyddwyr y Gymraeg i gael cymorth a chyngor
- Mae tudalennau mewnrwyd staff a'r blwch derbyn e-bost Cymraeg pwrpasol (WLS@bridgend.gov.uk)yn dal yn bodoli. Mae llawer o dudalennau'r fewnrwyd wedi cael eu diweddaru erbyn hyn ond mae rhywfaint o waith i'w wneud o hyd.
- Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu amrywiaeth o hyfforddiant ac adnoddau iaith Gymraeg i staff
- Mae'r cyngor bellach yn cefnogi staff i fynychu cyrsiau cymunedol ar hyfforddiant iaith Gymraeg
- Mae gweithwyr yn gallu cael mynediad at fframwaith NPS i gael gafael ar gymorth cyfieithu
- Rydym yn parhau i fod â dogfen gydymffurfio ar gael sy'n nodi sut y byddwn yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gweithredu, cadw cofnodion, hyrwyddo a llunio polisi perthnasol. Mae ein trefn gwyno hefyd ar gael ar ein gwefan yn ogystal ag adroddiadau blynyddol blaenorol
- Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn.

## 2.2 Safonau cyflenwi gwasanaethau

Yn 22/23 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg pan fo angen ateb
- Cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg cyffredinol neu ddwyieithog ar wahân o ohebiaeth, gan beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Darparu cyfarchiad dwyieithog dros y ffôn a, lle bo hynny'n berthnasol, mae sgyrsiau'n parhau yn Gymraeg nes eu bod yn dod i ben neu nes bod galwyr yn cael eu trosglwyddo i staff sy'n siarad Cymraeg (os ydynt ar gael), neu i staff sy'n siarad Saesneg os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael a bod y cwsmer yn cytuno â hyn
- Gweithredu un prif rif ffôn (01656 643643) ar gyfer y rheini sy'n dymuno siarad â rhywun yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael wrth alw, rhoddir gwybod i'r galwyr, yn Gymraeg, pan fydd gwasanaeth o'r fath ar gael. Gall y rheini sy'n dymuno siarad â rhywun yn Gymraeg adael neges yn Gymraeg hefyd

- Nodi ar ddeunyddiau sy’n hysbysebu rhif ffôn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bod galwadau’n cael eu croesawu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn parhau i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg ar y deunyddiau hysbysebu
- Gofyn i’r bobl rydyn ni wedi’u gwahodd i gyfarfod os ydyn nhw’n dymuno defnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfod a rhoi’r trefniadau angenrheidiol ar waith i hwyluso hyn.
- Anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd/digwyddiadau cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (lle bo hynny’n berthnasol) a’r cyfarfodydd/digwyddiadau hynny a ariennir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (50% neu fwy o gyllid). Gofynnir i unrhyw un sy’n bresennol mewn cyfarfodydd a ydynt yn dymuno defnyddio’r Gymraeg yn ogystal â rhoi gwybod i fynychwyr bod croeso iddynt ddefnyddio’r Gymraeg (os cawn wybod ymlaen llaw) yn y cyfarfod. Mae’r deunyddiau a ddefnyddir i hysbysebu’r cyfarfodydd/digwyddiadau hyn neu i’w harddangos yn y cyfarfodydd/digwyddiadau yn ddwyieithog
- Asesu’r galw am gyrsiau addysg cyfrwng Cymraeg sy’n agored i’r cyhoedd ac os oes angen, cynnig y cwrs yn Gymraeg
- Cynhyrchu deunyddiau marchnata, hysbysebu a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd (gan gynnwys datganiadau i’r wasg) yn ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddogfennau corfforaethol sy’n wynebu’r cyhoedd fel polisïau a rheolau yn ogystal â dogfennau ymgynghori. Nod y dogfennau hyn yw peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Mae fersiynau Saesneg ar wahân o ddogfennau sydd ar gael yn Gymraeg (lle mae’n ofynnol iddynt fod) yn nodi hynny ar y fersiwn Saesneg
- Cynhyrchu ffurflenni sydd ar gael i’r cyhoedd yn ddwyieithog neu ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes fersiynau ar wahân ar gael, rydym yn datgan ar y fersiwn Saesneg o’r ffurflen bod ffurflen Gymraeg ar gael
- Ymateb i negeseuon Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol mewn Cymraeg pan fo angen ateb
- Newid arwyddion stryd, lle a chyfeiriad (gan gynnwys arwyddion dros dro lle bo hynny’n berthnasol) yn dilyn difrod neu draul arferol, gydag arwyddion dwyieithog gyda’r testun Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf
- Cynhyrchu hysbysiadau swyddogol yn ddwyieithog gyda’r testun Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf
- Staff derbynfa sy’n siarad Cymraeg yn gwisgo cortynnau i ddangos i gwsmeriaid eu bod yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg
- Gwneud cyhoeddiadau sain dwyieithog gyda’r cyhoeddiad Cymraeg yn gyntaf
- Sicrhau bod ceisiadau am grant (a’r broses), tendrau (a chyfweliadau) ar gael yn Gymraeg
- Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael yn ôl yr angen

- Rydym yn parhau i gynhyrchu ein hagenda a'n cofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet a phwyllgorau yn ddwyieithog (safon 41). Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan
- Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi parhau i ddatblygu cynnwys a swyddogaethau dwyieithog ar y wefan yn ôl y gofyn (safon 52 a 56)
- Parhau i gyhoeddi'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymateb i ymholiadau Cymraeg a dderbynnir yn Gymraeg, lle mae angen ymateb. Nid ydym yn postio'n ddwyieithog mewn amgylchiadau lle mae angen cyfathrebu mewn argyfwng neu ar frys.

Datblygiadau newydd ar gyfer 22/23:

- Rydym wedi parhau i wella a datblygu ein llwyfan ar-lein Fy Nghyfrif, sy'n galluogi tanysgrifwyr i roi gwybod am faterion fel rheoli plâu a goleuadau stryd drwy'r llwyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae gennym Swyddog Iaith Gymraeg, sy'n parhau i gefnogi'r swyddog arweiniol newydd i fonitro cydymffurfiaeth a chyflawni Strategaeth Hybu'r Gymraeg.
- Mae modiwlau hyfforddiant e-ddysgu'r Gymraeg a Chydraddoldeb bellach yn orfodol i'r holl staff.

## 2.3 Safonau llunio polisi

Yn 22/23 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Defnyddio ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb (EIA) i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Gymraeg pan fydd polisïau'n cael eu diwygio neu eu datblygu
- Gofyn i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwil am eu barn ynghylch a allai penderfyniad polisi (os yw'n berthnasol) effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg
- Ystyried yr effeithiau y gallai dyfarnu grantiau eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg.

Datblygiadau newydd ar gyfer 22/23:

- Rydym wedi parhau i fonitro ein proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau ein bod yn asesu effaith unrhyw bolisi, ymarfer neu benderfyniad strategol ar y defnydd o'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.
- Protocol Dyfarnu Grantiau wedi'i gymeradwyo gan y CMB a'r protocol wedi'i rannu â swyddogion sy'n gweinyddu grantiau ac wedi'i gyhoeddi ar y fewnrwyd.

## 2.4 Safonau gweithredu

Yn 22/23 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Galluogi cyflogeion i gael mynediad at y drefn gwyno a’r broses yn Gymraeg, gan gynnwys dogfennau perthnasol
- Galluogi cyflogeion i gael mynediad at y drefn ddisgyblu a’r broses yn Gymraeg, gan gynnwys dogfennau perthnasol
- Darparu mynediad at feddalwedd cyfrifiadurol er mwyn i staff wirio sillafu a gramadeg
- Sicrhau bod yr adrannau/rhyngwynebau perthnasol ar ein mewnrwyd ar gael yn Gymraeg a bod adran Gymraeg benodol ar y fewnrwyd yn adnodd i staff
- Asesu sgiliau iaith Gymraeg ein gweithwyr yn barhaus
- Cael hyfforddiant ‘cwrdd a chyfarch’ a Chwrs Mynediad ar gael i staff
- Sicrhau bod pecynnau e-ddysgu ar gael i staff ar ymwybyddiaeth a diwylliant y Gymraeg yn ogystal â safonau’r Gymraeg
- Darparu mynediad at lofnodion e-bost dwyieithog a negeseuon allan o’r swyddfa. Anogir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg i nodi eu hunain felly ar eu llofnod e-bost (gan ddefnyddio’r logos cydnabyddedig perthnasol)
- Asesu’r sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag. Mae dadansoddiad o’r wybodaeth hon wedi’i gynnwys yn adran pump.
- Sicrhau bod y broses ymgeisio am swyddi a’r dogfennau ar gael yn Gymraeg ac nad yw’r broses Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau cyflogaeth
- Gwirio dewis iaith gweithwyr i ddarparu gohebiaeth sy’n ymwneud â’u cyflogaeth, ac amrywiol ffurflenni sy’n ymwneud â chyflogaeth yn Gymraeg yn ôl yr angen
- Sicrhau bod polisïau AD perthnasol ar gael yn Gymraeg, a darparu hyfforddiant (e-ddysgu) yn y Gymraeg o ran recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, Cynefino a defnyddio’r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu (safonau 128 a 129)
- Gosod arwyddion dwyieithog yn ein prif dderbynfa (Swyddfeydd Sifil), gyda’r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf
- Adroddiad blynyddol ar y strategaeth bum mlynedd ym Mhwyllgor Cydraddoldebau’r Cabinet.

Datblygiadau newydd ar gyfer 22/23:

- Yn ystod mis Ebrill 2023 mae’r cyngor wedi gofyn i drigolion ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ysgolion, Aelodau a rhanddeiliaid eraill rannu eu barn drwy gymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus ar ysgol egin Cyfrwng Cymraeg Porthcawl
- Cafodd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ei roi ar waith ym mis Medi 2022. Rydym wedi parhau i weithio gydag Addysg ac aelodau eraill i fwrw ymlaen â’r amcanion a nodir yn y cynllun 5 mlynedd.

- Rydym wedi parhau i wneud cynnydd o ran datblygu’r lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Sefydlwyd grŵp llywio sy’n cynnwys gweithwyr gofal plant proffesiynol a chydweithwyr yn y trydydd sector ac mae’n cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau darpariaeth effeithiol dros y tair blynedd nesaf.
- Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ein swyddi Cymraeg hanfodol, gan ganiatáu i ni recriwtio siaradwyr Cymraeg ychwanegol i wella ein darpariaeth Gymraeg.

### 2.5 Safonau cadw cofnodion

Yn 22/23 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Cofnodi unrhyw gwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â’n cydymffurfiaeth fel rhan o’n system gwyno gorfforaethol
- Monitro a chofnodi nifer y gweithwyr sy’n manteisio ar gyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg – gweler adran pedwar am ragor o fanylion
- Cofnodi sgiliau iaith Gymraeg cyflogeion ac asesiadau swyddi newydd a swyddi gwag – gweler adran pump am ragor o fanylion
- Cofnodi nifer y rhyngweithiadau Cymraeg sy’n digwydd dros nifer o sianeli (ffôn, wyneb yn wyneb a digidol) o fewn y ganolfan gyswllt gwasanaethau cwsmeriaid

## 3. Cwynion

- Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o’r cyhoedd ar 30/03/2023 am y ffaith nad oes modd cyrchu’r wefan Gymraeg er mwyn gweld bil treth gyngor. Yn dilyn ymchwiliad, nodwyd methiant system a rhoddwyd gwybod i’r gweinyddwyr er mwyn ei ddatrys.
  Roedd y gŵyn wedi’i datrys ac mae modd gweld biliau’r dreth gyngor a’u darllen ar wefan Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn Gymraeg.

- Derbyniwyd cwyn hefyd gan y comisiynydd ar 18/04/2023 yn ymwneud ag arwyddion uniaith Saesneg. Mae’r gŵyn yn ymwneud â 4 arwydd ffordd rhwng Cwmfelin ac Ysgol Gyfun Cymraeg Llangynwyd lle honnwyd bod pob arwydd yn datgan “Bridgend” yn Saesneg yn unig.
  Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ymateb i’r comisiynydd i ddangos tystiolaeth bod yr arwyddion dan sylw wedi bod yn eu lle ers rhwng 2008 a 2011, felly cyn gweithredu’r Safonau. Nid oedd angen ymchwiliad pellach gan y comisiynydd

- Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o’r cyhoedd ar 29/03/2023 am dri arwydd stryd Saesneg sydd wedi eu gosod gan y Cyngor o fewn y 12 mis diwethaf: Heol Castell Coety, Rhodfa Davies a Rhodfa Raphael yw’r strydoedd dan sylw.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda'r comisiynydd i ddatrys y gŵyn hon,

- Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ar 15/12/2022 yn honni bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau llunio polisi mewn perthynas â'r polisi trefniadau teithio dysgwyr, a bod trefniadau'r Cyngor o ran dalgylchoedd ysgolion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
  Ar hyn o bryd, mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal i ddatrys y gŵyn hon.

- O ganlyniad i ymchwiliad a agorwyd ym mis Awst 2022 gan y comisiynydd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi treulio amser yn adolygu ei ganllawiau presennol ynghylch asesiadau o'r effaith ar yr iaith Gymraeg (AEIG) yn unol â'r cyngor a gafwyd.
  Mae'r canllawiau newydd yn pwysleisio'r angen i gynnwys cwestiynau am effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg. Mae'r canllawiau newydd yn cynnwys set o gwestiynau a rhestr wirio ymgynghori sy'n ymwneud â'r camau y dylai meysydd gwasanaeth eu cymryd wrth ystyried ymarfer ymgynghori.

## 4. Sgiliau a hyfforddiant gweithwyr

1.1 Sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2023:

| | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac eithrio Ysgolion** | | | | **Ysgolion** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **Benywod** | **Dynion** | **Cyfanswm** | **%** | **Benywaidd** | **Dynion** | **Cyfanswm** | **%** |
| **Cyfanswm Cyfrif Pennau** | **2240** | **723** | **2963** | | **2454** | **531** | **2985** | |
| **Siaradwr Cymraeg** | | | | | **Siaradwr Cymraeg** | | | |
| 'Ychydig' | 459 | 136 | 595 | 20.08% | 398 | 80 | 478 | 16.01% |
| 'Gweddol Dda' | 45 | 14 | 59 | 1.99% | 92 | 12 | 104 | 3.48% |
| 'Rhugl' | 90 | 20 | 110 | 3.71% | 147 | 24 | 171 | 5.73% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ‘Na’ | 1181 | 398 | 1579 | 53.29% | 387 | 81 | 468 | 15.68% |
| ‘Heb Ddatgan’ | 465 | 155 | 620 | 20.92% | 1430 | 334 | 1764 | 59.10% |
| **Darllen yn Gymraeg** | | | | | **Darllen yn Gymraeg** | | | |
| ‘Ychydig’ | 482 | 138 | 620 | 20.92% | 410 | 77 | 487 | 16.31% |
| ‘Gweddol Dda’ | 59 | 23 | 82 | 2.77% | 99 | 13 | 112 | 3.75% |
| ‘Rhugl’ | 91 | 17 | 108 | 3.64% | 145 | 25 | 170 | 5.70% |
| ‘Na’ | 1139 | 389 | 1528 | 51.57% | 368 | 80 | 448 | 15.01% |
| ‘Heb Ddatgan’ | 469 | 156 | 625 | 21.09% | 1432 | 336 | 1768 | 59.23% |
| **Ysgrifennu yn Gymraeg** | | | | | **Ysgrifennu yn Gymraeg** | | | |
| ‘Ychydig’ | 385 | 93 | 478 | 16.13% | 366 | 71 | 437 | 14.64% |
| ‘Gweddol Dda’ | 43 | 20 | 63 | 2.13% | 92 | 14 | 106 | 3.55% |
| ‘Rhugl’ | 85 | 14 | 99 | 3.34% | 137 | 23 | 160 | 5.36% |
| ‘Na’ | 1259 | 439 | 1698 | 57.31% | 426 | 87 | 513 | 17.19% |
| ‘Heb Ddatgan’ | 468 | 157 | 625 | 21.09% | 1433 | 336 | 1769 | 59.26% |

Sylwer os gwelwch yn dda:

- Mae’r categori ‘Ysgolion’ yn cynnwys gweithwyr sy’n cael eu cyflogi’n uniongyrchol gan gyrff llywodraethu. Mae staff cynhwysiant wedi’u cynnwys yn y categori ‘BCBC ac eithrio ysgolion’.
- Mae’r categori ‘Heb Ddatgan’ yn cynnwys cyflogeion sydd heb roi manylion eu sgiliau iaith Gymraeg.
- Mae’r lefelau sgiliau a nodwyd yn seiliedig ar hunanasesiad unigol.
- Mae gan 214 o weithwyr swydd mewn ysgol a swydd mewn ‘Pob gwasanaeth arall’ ac maent yn cael eu cyfrif unwaith ym mhob categori.

**Nifer y cyflogeion a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023:**

- Mae 9 o weithwyr wedi mynychu hyfforddiant ‘Cwrs Mynediad’ yn 2022/23, gan eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy’n ymgymryd â blwyddyn 1, yn seiliedig ar ddwy awr yr wythnos dros 30 wythnos.
- Mae 13 o weithwyr wedi cael cymorth i fynychu cyrsiau Cymraeg yn y gymuned. Roedd y cyrsiau hyn yn cynnwys Sylfaen, Sylfaen Rhan 1 a Sylfaen Rhan 2, Sylfaen Rhan 3.
- Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddeunyddiau hyfforddi wyneb yn wyneb fod ar gael yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
- Cwblhawyd 88 e-ddysgu ar gyfer e-Ddysgu Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg (Saesneg – 62, Cymraeg - 0) ac e-Ddysgu Safonau’r Gymraeg (Saesneg - 25 Cymraeg - 1).
- Cwblhaodd 542 o weithwyr newydd y modiwl e-ddysgu cynefino corfforaethol a chwblhaodd 72 o weithwyr newydd y modiwl drwy lyfr gwaith. Cyfanswm a gwblhawyd 614. Mae’r broses gynefino gorfforaethol yn cynnwys adran ar gyflwyno’r Iaith Gymraeg, Safonau’r Gymraeg a dolenni i Fodiwlau E-Ddysgu’r Gymraeg a Chyfleoedd Hyfforddi Cymraeg.
- Cwblhaodd 60 o reolwyr newydd y modiwl e-ddysgu cynefino i reolwyr. Mae cynefino rheolwyr yn cynnwys cyflwyniad i’r Gymraeg a Safonau’r Gymraeg a chysylltiadau â Modiwl E-ddysgu Safonau’r Gymraeg a’r Modiwl E-ddysgu Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg.

## 5. Recriwtio a dethol

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod 2022/23 lle’r oedd sgiliau yn y Gymraeg:

| Categori | Nifer y swyddi a gafodd eu categoreiddio | Canran y swyddi a gafodd eu categoreiddio |
|---|---|---|
| **Hanfodol** | 39 | 4.73% |
| **Dymunol** | 784 | 95.26% |
| **Angen dysgu Cymraeg** | 0 | 0.00% |
| **Dim angen unrhyw sgiliau Cymraeg** | 0 | 0.00% |

## 6. Gwasanaethau derbynfa: canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt dros y ffôn

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023:

| **Rhyngweithio wyneb yn wyneb yn Gymraeg** | **2** |
|---|---|
| **Cyfanswm yr ymweliadau** | 7590 |
| **Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y rhyngweithiadau a gynhaliwyd** | 0.02% |

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Gyswllt dros y Ffôn rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023:

| **Nifer y galwadau yn ystod oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)** | **112622** |
|---|---|
| **Nifer y galwadau a dderbynnir y tu allan i oriau (Cymraeg a Saesneg)** | 1619 |
| **Cyfanswm y galwadau a dderbyniwyd (Cymraeg a Saesneg)** | 114241 |
| **Nifer y galwadau yn Gymraeg** | 19 |
| **Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y galwadau** | 0.02 |

Ailagorodd swyddfeydd y cyngor ar 1 Mawrth 2022, fodd bynnag, mae'r galw am wyneb yn wyn yn dal yn isel ar draws pob iaith.

Roedd nifer y ceisiadau am deleffoni wedi gostwng o 115,671 i 114,241 (oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)

Roedd nifer y galwadau a dderbyniwyd y tu allan i oriau (Cymraeg a Saesneg) hefyd wedi gostwng o 5,112 i 1619.

Roedd ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y cysylltiadau hefyd wedi gostwng o 0.05% i 0.02% (cafodd y llinell Gymraeg broblemau ddechrau 2023)

Mae ein gweithgarwch ar-lein yn parhau i gynyddu ac felly rydym wedi sylwi ar ostyngiad yn ein sianeli ffôn ac wyneb yn wyneb.

Mae nifer isel o geisiadau o hyd i gysylltu â ni yn Gymraeg, ond rydym yn parhau i geisio recriwtio siaradwyr Cymraeg lle bo hynny'n bosibl i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â hyn, byddwn hefyd yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'n IVR i sicrhau ein bod yn cyfeirio galwadau i'r adran gywir, p'un ai y dewisir Cymraeg neu Saesneg.

## 7. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Cynhaliwyd dau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn gan ystyried effaith y polisi/strategaeth ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol a thrin y ddwy iaith yn gyfartal. Ni nodwyd unrhyw effaith ac o ganlyniad ni wnaed unrhyw newidiadau i'r polisïau/strategaethau arfaethedig a aseswyd.

## 8. Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg

Roedd y cyngor wedi hyrwyddo'r digwyddiadau a'r gweithgareddau canlynol rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023:

- Dechreuodd y gwaith adeiladu ar ganolfan gofal plant cyfrwng Cymraeg Cwm Garw
- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
- Shwmae Shwmae
- Mudiad Meithrin a Cymraeg i Blant
- Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg
- Strategaeth yr Iaith Gymraeg / Ymgynghoriad
- Dydd Gŵyl Dewi
- Dydd Santes Dwynwen
- Clwb Coffi
- Cylch chwarae neu ysgol Cyfrwng Cymraeg
- Cynnig Gofal Plant Cymru
- Dydd Miwsig Cymru
- Recriwtio darparwyr gofal plant sy'n siarad Cymraeg
- Recriwtio rolau Cymraeg
- Twitter Cymraeg
- Clwb Cinio
- Diwrnod Dylan Thomas
- Ymgyrch Gymraeg yn cael ei chynnal ar Twitter drwy fis Medi
- Adeilad wedi'i oleuo'n goch i nodi diwrnod ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Dydd Miwsig Cymru
- Wedi mynychu Gwobrau Siarter Cymraeg
- Dathlu llwyddiant ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg lleol gyda'r cyflawniadau a gawsant gan y gwobrau Siarter Iaith.

Bydd manylion y gweithgareddau hyrwyddo hyn yn cael eu cofnodi fel rhan o’n proses adrodd ar gyfer ein Strategaeth Iaith Gymraeg. Bydd adroddiad ar y cyfnod hwn ar gael yn ein Pwyllgor Cabinet ar Gydraddoldebau ym mis Gorffennaf 2023.